

Pennod 7: Trysori

1. Sut ydych chi'n deall yr alwad i fod yn stiward ar y greadigaeth?
2. Pa gamau bach gallen ni eu cymryd i drysori'r amgylchfyd – fel unigolion; fel eglwysi; fel cymunedau?
3. Ydi hi wedi mynd yn rhy hwyr i atal newid hinsawdd?
4. Mae'r 5 nod yn 'diogelu cyfanrwydd y genhadaeth'. Pa rai ymhlith y 5 fyddech chi'n dweud bod eich eglwys yn llwyddo eu gwneud a pha rai sy'n cael eu hesgeuluso gennych?

Gweithgarwch ychwanegol

Darllenwch y darn canlynol yn uchel a rhowch ychydig funudau i bobl feddwl amdano.

Genesis 12: 1-4a

'Dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Abram,
"Dw i am i ti adael dy wlad, dy bobl a dy deulu, a mynd i ble dw i'n ei ddangos i ti. Bydda i'n dy wneud di yn genedl fawr, ac yn dy fendithio di, a byddi'n enwog. Dw i eisiau i ti fod yn fendith i eraill. Bydda i'n bendithio'r rhai sy'n dy fendithio di ac yn mellithio unrhyw un sy'n dy fychanu di. A bydd pobloedd y byd i gyd yn cael eu bendithio trwtot ti."
Felly dyma Abram yn mynd, fel roedd yr ARGLWYDD wedi dweud wrtho.'

Beth mae'r darn yma yn dweud wrthyh chi am genhadaeth? Sut mae hyn yn berthnasol i genhadu heddiw?

'Cenhadaeth yw darganfod beth mae Duw yn ei wneud ac ymuno â hynny.' (Rowan Williams) **Trafodwch.**

Noder: Bydd y ffilm nesaf ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Undeb yn ystod mis Ebrill 2019.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Cynllun Y Ffordd



Cenhadaeth

*Blwyddyn 3, Rhan 1
Chwefror 2019*

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Fe welwch fod y ffilm 'CENHADAETH' yn cynnwys saith pennod. Awgrymwch eich bod yn rhannu'r ffilm fel y bo'n addas i chi. Cynhwysir hefyd nifer o gwestiynau ar gyfer y penodau unigol, ond efallai fod yna gwestiynau eraill fydd o ddiddordeb i'r grŵp.

Pennod 1: *Beth yw Cenhadaeth?*

Pennod 2: *Y Pum Nod Cenhadol*

Pennod 3: *Dweud*

Pennod 4: *Dysgu*

Pennod 5: *Tendio*

Pennod 6: *Trawsnewid*

Pennod 7: *Trysori*

Ar dudalennau 3 a 4 o'r daflen hon mae nifer o weithgareddau eraill i helpu llenwi'r sesiynau, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

Beth allwn ni fel eglwys ei wneud yn dilyn y drafodaeth hon?

Cwestiynau i'w trafod

Pennod 1: Beth yw Cenhadaeth?

1. Pa ddiffiniad o genhadaeth yn y bennod hon sy'n apelio atoch a pham?
2. A fyddech chi'n disgrifio eich eglwys chi fel eglwys genhadol? Sut mae hynny'n dangos ei hun?
3. Ydy hi'n iawn i genhadu i bobl sy'n perthyn i ffydd wahanol?
4. Pa un o'r geiriau canlynol sy'n disgrifio'ch teimladau chi orau wrth feddwl am genhadaeth – her, cyfle, rhwystr, baich neu ofn?

Pennod 2: Y Pum Nod Cenhadol

1. Ydy'r diffiniad traddodiadol o genhadaeth yn rhy gyfyng?
2. Oes yna elfennau o'r genhadaeth Gristnogol sydd ddim yn cael eu cynnwys yn y Pum Nod Cenhadol?

Pennod 3: Dweud

1. Pa ddiffiniad o'r 'Dweud' yn y bennod hon sy'n apelio atoch a pham?
2. Oes rhaid i'r 'Dweud' fod ar ffurf geiriau neu a oes yna ffyrdd eraill o ddweud?
3. Beth sy'n gyfrifol ein bod ni ddim yn 'Dweud' fel y dylem?
4. Pa ddulliau cyfoes o'r 'Dweud' dylai'r eglwys fod yn eu defnyddio heddiw?
5. Ydy'r safbwynt Cristnogol ar bynciau'r dydd yn cael eu clywed yn gyson o bulpud eich eglwys ac a ydynt yn cael eu trosglwyddo i bobl y tu allan i'ch eglwys?

Pennod 4: Dysgu

1. Faint o bwyslais sy'n cael ei rhoi ar feithrin ffydd o fewn bywyd eich eglwys?

2. Sut mae eich eglwys yn helpu pobl i dyfu mewn ffydd a dod i ddealltwriaeth lawnach o Iesu? Fyddech chi'n dweud ei bod hi'n llwyddiannus yn gwneud hynny?
3. Beth yw'r cyfleoedd ym mywyd eich eglwys i bobl gymryd rhan a bod yn weithredol?
4. Ym mha ffyrdd mae eich ffydd chi wedi newid neu ddatblygu yn ystod eich cyfnod fel aelod o'ch eglwys?

Pennod 5: Tendio

1. Beth yw cyfraniad arbennig eich eglwys chi i fywyd y gymuned o'i chwmpas?
2. Ym mha ffyrdd y mae eich eglwys yn dangos gofal tuag at: a) yr aelodau; b) pobl y tu allan?
3. 'Dylai ein cariad at Dduw lifo i mewn i bob perthynas sydd gennym.' Trafodwch.
4. Pa gyfleoedd sydd ym mywyd eich eglwys i bobl siarad â'i gilydd a gwrandao ar ei gilydd?
5. Sut mae eich eglwys chi'n mynd i'r afael â phroblem unigrwydd – o fewn yr eglwys ac yn y gymuned leol?

Pennod 6: Trawsnewid

1. Sut mae eich eglwys chi'n herio systemau a strwythurau gormes, trais ac anghyfiawnder?
2. Pa mor barod ydym ni, fel Cristnogion unigol, i gael ein trawsnewid?
3. Gallwch chi feddwl am enghraifft debyg i Ben-rhys, ble mae'r eglwys wedi 'dathlu'r gymuned' a 'dangos bod bywyd y gymuned yn bwysig'?
4. Pa bethau dylai'r eglwys fod yn barod i sefyll i fyny drostynt?
5. Trafodwch eiriau Iesu yn Ioan 10:10, 'Dw i wedi dod i roi bywyd i bobl, a hwnnw'n fywyd ar ei orau.' (beibl.net) Gallech gymharu cyfieithiadau eraill.